# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Chwefror 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 189(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg**

Heledd Fychan (Canol De Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith cynyddu'r cap ffioedd dysgu a thorri grantiau cymorth ôl-raddedig ar y nifer tebygol o fyfyrwyr sy'n gwneud cais i astudio ym Mhrifysgolion Cymru?

**Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru): Pa ymgynghoriad y mae'r Gweinidog wedi'i gynnal gydag Awdurdodau Lleol ledled Cymru cyn i Lywodraeth Cymru ddyrannu cyllid canlyniadol i awdurdodau lleol yng Nghymru yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2024?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol

(60 munud)

**NDM8477** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Senedd Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2024.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Cyflenwad tai

(60 munud)

**NDM8479** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu, er bod angen o leiaf 12,000 o gartrefi newydd ar Gymru bob blwyddyn, bod Llywodraeth Cymru wedi adeiladu prin hanner y nifer hwnnw dros y degawd diwethaf.

2. Yn cydnabod ffigurau a ryddhawyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2023 bod 103,000 o anheddau sy'n wirioneddol wag yng Nghymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sefydlu tasglu penodedig o gynllunwyr i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn y cynghorau â'r perfformiad arafaf, a chreu prentis cynllunio ar gyfer pob cyngor;

b) cefnogi datblygwyr bach yng Nghymru i adeiladu cartrefi ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru a chynghorau lleol, gan ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion lleol o ran tai; ac

c) troi eiddo gwag yng Nghymru yn ôl i fod yn gartrefi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod:

a) bron i 90,000 o aelwydydd ar restrau aros tai cymdeithasol ar hyn o bryd; a

b) 11,273 o unigolion mewn llety dros dro ym mis Hydref 2023, a bod 3,403 ohonynt yn blant dibynnol o dan 16 oed.

2. Yn gresynu:

a) mai dim ond 5,775 o unedau mae Llywodraeth Cymru wedi eu darparu ers 2021, er gwaethaf y targed o ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu o fewn y sector cymdeithasol yn ystod tymor y llywodraeth hon; a

b) bod dros 139,000 o gartrefi cymdeithasol ar rent wedi eu colli i'r farchnad agored erbyn i'r Hawl i Brynu gael ei diddymu yng Nghymru yn 2019, gan gyfrannu'n fawr at yr argyfwng tai presennol.

3. Yn credu:

a) mai'r ateb i argyfwng tai Cymru yw cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy ar gyfer aelwydydd incwm canolig ac isel, i'w rhentu ac i'w prynu; a

b) y bydd sicrhau cyfradd llawer uwch o gartrefi mewn perchnogaeth gyhoeddus a chymunedol hefyd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar fforddiadwyedd yn y farchnad dai ehangach.

4. Yn croesawu'r:

a) ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i gyhoeddi Papur Gwyn sy'n nodi cynigion i sefydlu system o renti teg a dulliau newydd o wneud cartrefi'n fwy fforddiadwy; a

b) diwygio radical ar gyfer y dyfodol a nodir yn y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd a ddatblygwyd fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu'r gwaith o adeiladu tai cymdeithasol yn gyflym er mwyn cyrraedd neu ragori ar y targed i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu o fewn y sector cymdeithasol.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod yr heriau y mae'r sector tai yn eu hwynebu, sy'n effeithio ar y cyflenwad o dai ar draws y Deyrnas Unedig.

2. Yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd a'i buddsoddiad mewn tai.

3. Yn nodi ymrwymiad uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol, carbon isel yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

4. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Unnos, ar y cyd â Plaid Cymru, er mwyn cefnogi ein cynghorau a'n landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a thai fforddiadwy, gan gynnwys sicrhau bod mwy o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Y gwasanaeth iechyd

(60 munud)

**NDM8478** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cefnogi ymdrechion arwrol staff y GIG yng Nghymru wrth iddynt ddarparu gofal mewn amgylchiadau heriol.

2. Yn nodi blwyddyn ers i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru.

3. Yn credu bod:

a) canlyniadau iechyd wedi gwaethygu yn y flwyddyn sydd wedi mynd heibio; a

b) methiant i weithredu ar y blaenoriaethau wedi cyfrannu at fod pob bwrdd iechyd mewn rhyw fath o statws uwchgyfeirio.

4. Yn gresynu:

a) bod nifer y llwybrau cleifion oedd yn aros am driniaeth yn 758,815 ym mis Tachwedd 2023, o'i gymharu â 731,102 ym mis Chwefror 2023;

b) mai 53.5 y cant o gleifion canser ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn y targed 62 diwrnod ym mis Tachwedd 2023, o'i gymharu â 54.3 y cant ym mis Chwefror 2023;

c) mai nifer y meddygon teulu cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru oedd 1901 yn 2013 a 1429.6 yn 2023; a

d) mai 66.7 y cant o gleifion dreuliodd llai na 4 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ym mis Rhagfyr 2023, o'i gymharu â 71.5 y cant ym mis Chwefror 2023.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) pennu amserlen glir i ddad-ddwysáu trefniadau ymyrryd ym mhob bwrdd iechyd; a

b) datgan argyfwng iechyd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi:

a) ar ddiwedd mis Tachwedd 2023, mai canran y llwybrau agored a oedd yn aros llai na 104 wythnos oedd 96.7%, sef yr 20fed gwelliant yn olynol a'r uchaf y mae wedi bod ers Awst 2021;

b) yn 2023, bod nifer cyfartalog y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio i'r llwybr lle'r amheuir canser bob mis wedi cynyddu 53% ers 2020;

c) ym mis Tachwedd 2023, bod bron i 14,800 o bobl a atgyfeiriwyd oherwydd amheuaeth o ganser wedi cael gwybod nad oedd canser arnynt, sef yr ail uchaf ar gofnod;

d) bod mwy o feddygon teulu cwbl gymwysedig yn gweithio yng Nghymru ym mis Mehefin 2023 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol - cynnydd o 0.9%; ac

e) bod y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer mis Rhagfyr 2023 yn dangos lleihad o 51% yn y perfformiad o ran amser ymateb cyfartalog ambiwlansys i alwadau oren, gwelliant o 29% yn y perfformiad o ran trosglwyddo cleifion o ambiwlansys a gostyngiad o 20% yn nifer y cleifion sy'n treulio dros 12 awr mewn adrannau brys cyn cael eu derbyn neu eu rhyddhau; o'i gymharu â'r un mis yn 2022.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

datblygu a chyflwyno cynllun gweithlu ar gyfer GIG Cymru;

**Gwelliant 3** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

gosod targed i ddileu amseroedd aros dwy flynedd erbyn mis Medi 2024 a chreu tasglu i'w gyflawni;

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8476** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Mynediad cyflymach at wasanaethau clyw yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 20 Chwefror 2024

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 31/01/2024 i'w hateb ar 07/02/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG YR ECONOMI

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

1 OQ60656 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl ddi-waith i ddechrau eu busnes eu hunain?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

2 OQ60653 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi bwytai yng Nghymru ar ôl i nifer ohonynt gau ers dechrau'r flwyddyn newydd?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

3 OQ60643 **(e)**

Pa waith ymgysylltu y mae'r Gweinidog wedi'i wneud gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar adfywio lleoliadau diwylliannol?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

4 OQ60665 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r economi yn ne-ddwyrain Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

5 OQ60659 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i greu mwy o swyddi â chyflogau uwch yn y canolbarth?

**Ken Skates** *De Clwyd*

6 OQ60645 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth economaidd y diwydiant paneli pren i Gymru?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

7 OQ60646 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gan weithlu Cymru y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y farchnad swyddi yn y dyfodol?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OQ60647 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyfleoedd economaidd i bobl ifanc yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ60644 **(d)**

Pa asesiad sydd wedi ei wneud gan y Gweinidog o effaith economaidd a chymdeithasol y diswyddiadau posib yn Tata Steel ym Mhort Talbot?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

10 OQ60650 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau yng nghanol trefi?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

11 OQ60660 **(w)**

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r nifer o fusnesau sydd yn debyg o fethu o ganlyniad i'r Llywodraeth yn gostwng lefel lliniaru ardrethi busnes o 75 y cant i 40 y cant?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

12 OQ60652 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella cysylltedd band eang yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

1 OQ60638 **(e)**

Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau gwerth am arian wrth gaffael cynhyrchion i'w defnyddio yn y GIG?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

2 OQ60651 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau iechyd meddwl cymunedol yng Ngogledd Cymru?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ60663 **(w)**

Pa fesurau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gadw meddygon yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ60637 **(d)**

Sut mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod triniaeth iechyd effeithiol ar gael i bobl sy'n camddefnyddio cyffuriau?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

5 OQ60641 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i greu cenhedlaeth ddi-fwg?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ60661 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gontractau meddygon teulu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

7 OQ60636 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal sylfaenol?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

8 OQ60654 **(e)**

Pa ystyriaeth mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i gyflwyno gwasanaethau IVF am ddim ar y GIG ledled Cymru?

**Joel James** *Canol De Cymru*

9 OQ60639 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y bydd ddeddfwriaeth yr UE i wahardd amalgam deintyddol o 1 Ionawr 2025 yn ei chael ar ddeintyddiaeth yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

10 OQ60666 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ddarpariaeth gwasanaethau brys yn y canolbarth?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

11 OQ60668 (e)

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl ag anghenion iechyd heb eu diwallu?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

12 OQ60662 (w)

Pa gefnogaeth fydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r sector gofal plant i sicrhau eu bod yn gallu codi cyflogau staff yn unol a'r isafswm cyflog newydd o fis Ebrill ymlaen?